# EISTEDDFOD YR URDD
# SIR GAERFYRDDIN 2023

## Rhif 134
## Grŵp Llefaru dan 25 oed (Aelwyd)
(6 – 16 mewn nifer)

# Detholiad o Dan y Wenallt

**Dylan Thomas**

Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod

(Hawlfraint: Atebol)

Urdd

***Dan y Wenallt* (Detholiad o argraffiad newydd 2014)**

Addasiad T. James Jones o *Under Milk Wood*, Dylan Thomas

A dechrau yn y dechrau'n deg:
mae hi'n nos o Wanwyn yn y dref fach
ddileuad, ddiseren,
dywylled â beibl,
y strydoedd cobl yn ddistaw,
a gallt wargrwm y cariadon a'r cwningod
fel ar herc anweledig i lawr at y môr pygddu,
ddued ag eirin y fagddu,
lle mae'r cychod pysgota'n hen aflonyddu.
Mae'r tai mor ddall â gwahaddod,
(er fe wêl y gwahaddod yn burion heno,
yn y glynnoedd melfedaidd, trwyngul)
neu'n ddall fel y Capten fan draw'n cyfeillachu
â'r pwmp a'r cloc a'r siopau yn eu galar,
a'r Neuadd Les fel gweddw wylofus.
A chaewyd llen pob llygad tan amrannau trwm y nos.

Ust, mae'r plantos yn cysgu,
a ffarmwr, masnachwr, pysgotwr, pensiynwr, postman,
crydd, sgwlyn, meddwyn, tafarnwr, teiliwr, pregethwr, plisman,
yr ymgymerwr,
y cocs-fenwod traed hwyaden, a'r gwragedd cymen.

Gallwch glywed y gwlith yn diferu, a'r dref ddistaw'n anadlu.

Clywch. Mae'r nos yn symud drwy'r strydoedd,
ar ymdeithgan urddasol y gwynt
yn Heol y Brenin a Lôn Cregyn,
a'r halen yn drwch ar yr alaw,
ym mhrifio'r borfa ar Fryncyn Llaregyb,
yn y gwlithyn sy'n cronni a'r seren sy'n chwalu,
ac yng nghwsg adar y Wenallt.

Mae amser yn cerdded. Clywch.
Ddoe heddiw ac yfory a threnydd a thradwy.
Clywch gerdded traed amser.
Dewch yn nes nawr.

Chi yn unig a glyw'r tai yn cysgu yn y strydoedd,
yn llif distaw, hallt, linc-di-lonc y nos rwymedig.
Chi yn unig a all glywed a gweld,
yng nghefn llygad y breuddwydwyr,
gyffro a gwlad a drysfa a lliw
a siom ac alaw ac awydd a ffoi
a chwymp a thrychineb
môr mawr eu breuddwydion.